# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda, ddydd Mercher 10 Chwefror 2021 am 9.30am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Peter Arnold Evans, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Tina Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Peter Scott, Tony Thomas, Joe Welch (Cadeirydd) a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr Rheoli Datblygu (PM), Cyfreithiwr (TD), Swyddog Cynllunio (PG), Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ) (Gwesteiwr) a Gweinyddwr Pwyllgorau (RTJ)

Arsylwyr – Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts,

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Emrys Wynne, Julian Thompson-Hill a Gwyneth Kensler.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Merfyn Parry wrth y cadeirydd am gyrraedd yn hwyr i'r cyfarfod gan ei fod wedi cael problemau technegol wrth gael mynediad i'r cyfarfod.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2021.

O ran cywirdeb –

Amlygodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies rai camgymeriadau o ran cyfieithu yn y cofnodion. Mynegodd hefyd sut yr oedd yn teimlo nad oedd y pwyntiau a godwyd ganddo yn y cyfarfod blaenorol wedi eu cyfleu yn deg o fewn y cofnodion ar gyfer rhif y cais 31/2020/0338 - Tir gerllaw Marllwyn, Groesffordd Marli. Gofynnodd a ellid nodi'r pwyntiau a ganlyn -

(i) ”Cyfeiriwyd at y Cynllun Datblygu Lleol yn denu trigolion i'r Trefi ac yn lladd Pentrefi Gwledig.”
(ii) “Galwyd am well cyfle a threfniadau i bobl leol yng nghefn gwlad gael mynediad i dai fforddiadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd”

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2021 fel cofnod cywir.*

**5 CAIS RHIF.02/2020/0811- 73A ERW GOCH, RHUTHUN**

Cyflwynwyd cais ar gyfer adeiladu annedd ar wahân, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig yn 73A, Erw Goch, Rhuthun.

Hysbysodd swyddogion yr aelodau o'r sylwadau hwyr yn y taflenni glas. O ystyried sylwadau'r Ymgynghorydd Coed, roedd asiant yr ymgeisydd wedi gofyn am fwy o amser i ddelio â'r materion a godwyd. Felly, gofynnodd Swyddogion i'r cais gael ei ohirio er mwyn caniatáu i'r ymgeiswyr ddelio â’r mater o’r effaith ar goed yn fwy digonol.

Cynnig – Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry ohirio’r cais, am y rhesymau a eglurwyd gan y Swyddog Cynllunio uchod, cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Alan James.

Pleidlais:
O blaid – 13
Ymatal – 0
Yn erbyn – 1

***PENDERFYNWYD*** *y dylid gohirio'r cais ar y Tir y tu ôl i 73A Erw Goch, Rhuthun tan gyfarfod yn y dyfodol.*

**6 CAIS RHIF. 02/2020/0989 - WYNNSTAY STORES CYNT, FFORDD Y PARC, RHUTHUN**

Cyflwynwyd cais ar gyfer amrywio amod rhif 7 caniatâd cynllunio cod rhif 02/2020/0251 i ganiatáu defnyddio peiriannau sy’n cynhyrchu sŵn rhwng 08.00 a 17.30 dydd Llun i ddydd Gwener a 08.00 - 12.30 ar ddydd Sadwrn yn yr hen Wynnstay Stores, Ffordd y Parc, Rhuthun.

Siaradwyr Cyhoeddus -

Gail Banks (**Yn Erbyn**) –

Amlinellodd y siaradwr cyhoeddus y rhesymau dros ei gwrthwynebiad i'r cais i ddileu amod 7 a oedd yn cynnwys y rhesymau canlynol:

- Roedd yr amodau a osodwyd yn cydnabod y pryderon ynghylch sŵn gan breswylwyr ac roedd ganddynt y nod o ddiogelu amwynderau'r preswylwyr. Dywedodd y siaradwr cyhoeddus fod yr ymgeisydd wedi torri'r amodau hyn.

- Mae torri amodau'n barhaus a defnyddio offer sy’n cynhyrchu sŵn wedi cael effaith andwyol ar fywydau beunyddiol y teulu. Mae'r gwasgwr yn gwneud sŵn grwnan parhaus pan mae’n troi ac mae'n curo ac yn dirgrynu pan mae’n gwasgu deunyddiau.
- Roedd y sŵn sy'n gysylltiedig â'r iard hefyd yn effeithio ar amwynder y teulu i fwynhau ymlacio yn yr ardd gefn, bu adegau pan oedd angen i ni ddod i mewn i'r tŷ oherwydd bod sŵn y gwasgwr yn tynnu gormod o sylw.
- Pryder, pe bai amod 7 yn cael ei ddileu, y byddai'n 'agor y llifddorau' i ddefnyddio mwy o offer sy’n cynhyrchu sŵn ar yr iard a byddai preswylwyr unwaith eto dan anfantais o ran yr angen i gofnodi'r gweithgareddau cynhyrchu sŵn ar yr iard er mwyn rhoi darlun cywir o'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn hytrach na'r wybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd gan G Parry.
- Pe bai gwir weithgareddau’r iard o ddydd i ddydd wedi'u cyflwyno ar y cais cychwynnol, a fyddai'r cais wedi'i ganiatáu?
- Amlygodd cyflwyno tor-amod swyddogol o tri o’r saith amod nad oedd y gweithgareddau ar y safle yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos. Roedd pum preswylydd ar ddwy ochr i'r iard, a oedd agosaf at y safle, yn gwrthwynebu ac roedd darpariaeth gofal plant The Mill yn gwrthwynebu hefyd.
- Roedd y gweithgareddau'n fwy addas ar gyfer amgylchedd ystâd ddiwydiannol, ac roedd Rhuthun yn ffodus i fod ag un lai na milltir i fyny'r ffordd.

Mike Hall (**O blaid**) –

Amlinellodd y siaradwr cyhoeddus o blaid y cais hanes y busnes a chyfleoedd cyflogaeth yr ymgeisydd. Rhoddwyd crynodeb o’r gweithrediadau o fewn yr iard.

Dywedodd y siaradwr nad oedd gan yr iard gyfarpar neu beiriannau sefydlog ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgynhyrchu. Gwnaed sŵn o symud deunyddiau/peiriannau o amgylch yr iard storio, dadlwytho/llwytho deunyddiau, defnyddio offer llaw yn achlysurol ar gyfer torri deunyddiau a/neu baratoi deunyddiau ar gyfer y safle, ac ailgylchu deunyddiau i leihau gwastraff ac effaith amgylcheddol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai ychydig iawn o sŵn a wnaed a'i fod yn anaml, ac nad oedd yn unrhyw beth a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n afresymol i unrhyw fusnes ar y safle hwn. Dywedodd fod y Swyddfa Gynllunio a Swyddfa Gwarchod y Cyhoedd wedi bod i'r safle a'u bod o'r farn bod lefel ac amseriad y sŵn yn rhesymol.

Adroddwyd bod y safle wedi bod yn safle masnachol ers dros 50 mlynedd, gyda'r holl fusnesau blaenorol yn gwneud llawer mwy o sŵn nag yn awr. Amlinellodd y siaradwr y gweithrediadau blaenorol a gynhaliwyd ar y safle a sut yr oedd y safle wedi'i adael yn wag am ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, wrth gwrs, ni chynhyrchwyd sŵn ac efallai fod trigolion cyfagos wedi dod yn gyfarwydd â'r sefyllfa honno.

Roedd y siaradwr yn cydnabod y bu ychydig fisoedd cychwynnol o lefelau uwch o sŵn wrth i'r safle gael ei baratoi ond bod y cwmni wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol er mwyn lleihau sŵn a'r effaith ar drigolion lleol. Dywedodd na allai'r cwmni

weithredu eu busnes yn llwyddiannus o'r safle heb allu gwneud lefelau rhesymol o sŵn o'u gweithgareddau.

Trafodaeth gyffredinol -

Atgoffodd swyddogion yr aelodau bod yr amod wedi'i ychwanegu mewn cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor cynllunio. Newidiwyd yr amodau yr oedd swyddogion wedi'u hargymell gan y pwyllgor i ychwanegu'r amod nad oedd unrhyw offer cynhyrchu sŵn ar y safle. Roedd y cais heddiw ar gyfer mabwysiadu'r amodau gwreiddiol a argymhellwyd gan swyddogion cynllunio.

Tynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley (aelod lleol) sylw at bwyntiau i gefnogi'r cais. Mae'r safle wedi cael busnes arno ers dros 40 mlynedd a gynhyrchodd sŵn, ac roedd y safle hefyd wedi'i leoli ger ffordd brysur. Roedd y cwmni hefyd wedi bod yn darparu cyflogaeth leol. Dywedodd fod y pandemig wedi gwneud unrhyw lygredd sŵn yn fwy amlwg gan fod pobl yn treulio mwy o amser yn gweithio gartref, ond teimlai mai amodau'r swyddogion cynllunio arfaethedig oedd yr dewisiadau gorau i bawb dan sylw.

Holodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts (aelod lleol) y swyddogion sut yr oedd uned ddiwydiannol i fod i weithredu heb unrhyw offer cynhyrchu sŵn a chyferbynnu'r defnydd yn awr â defnydd blaenorol y safle o gynhyrchu sŵn, nad oedd wedi'i gynnwys yn yr amodau cynllunio.

Holodd y Cynghorydd Ann Davies a ellid cyfyngu'r defnydd o’r gwasgwr creigiau i 30 munud y dydd, ac a oedd unrhyw rwystrau sŵn wedi'u cynnwys ar y safle i liniaru unrhyw lygredd sŵn, hefyd gofynnwyd a oedd y mater o lwch wedi'i amlygu.

**Cynnig** – Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry y dylid caniatáu'r cais yn unol ag argymhellion swyddogion (amod 7 ac 8) ac eiliwyd gan y Cynghorydd Brian Jones.

Ymatebodd swyddogion i’r aelodau ynghylch gweithgarwch gorfodaeth ar gyfer torri amodau cynllunio. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd y byddai cyrff rheoleiddio fel y tîm gwarchod y cyhoedd yn gysylltiedig â materion fel niwsans llwch.

**Pleidlais:**
O blaid – 16
Ymatal – 0
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO’R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a’r papurau ategol.*

## 7 CAIS RHIF. 03/2020/0909 - TIR YN (RHAN O ARDD) 15 MAES BACHE, LLANGOLLEN

Cyflwynwyd cais ar gyfer Adeiladu 1 annedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig ar dir sy’n rhan o ardd 15 Maes Bache, Llangollen.

O ystyried y sylwadau hwyr oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru, gofynnodd swyddogion i'r cais gael ei ohirio er mwyn caniatáu i'r ymgeiswyr fynd i'r afael â'r mater o effaith ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Dyfrdwy.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Melvyn Mile ohirio'r cais o ystyried y sylwadau hwyr gan Adnoddau Naturiol Cymru ac i'r ymgeisydd fynd i'r afael â mater effaith mewn perthynas ag ACA, cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Alan James.

Pleidlais:
O blaid – 16
Ymatal – 0
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid gohirio'r cais ar dir sy'n rhan o ardd 15 Maes Bache, Llangollen tan gyfarfod yn y dyfodol.*

**8 CAIS RHIF. 43/2020/0907 - BRIGADOON, 2 TALTON COURT, PRESTATYN**

Cyflwynwyd cais i godi estyniad llawr cyntaf a gwaith cysylltiedig yn Brigadoon 2, Talton Court, Prestatyn, LL19 9HF (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Siaradwr Cyhoeddus –

Susan Brown (**O blaid**) –

Adroddodd y siaradwr cyhoeddus o blaid y cais ar gysylltiadau ei theulu â'r ardal. Dywedodd fod angen ei theulu ar gyfer gweithio gartref ac addysgu gartref ar hyn o bryd yn tanlinellu rhai o'r rhesymau dros y cais.

Dywedodd y siaradwr fod yr ymgeiswyr wedi gweithio'n agos gyda'r swyddog cynllunio ar y cais a bod y cynllun wedi'i gynllunio'n ofalus i wneud y gorau o leoliad y tŷ presennol.

O ran pryderon ynghylch y strydwedd, adroddodd fod nifer fawr o eiddo cyfagos ym Mhrestatyn a oedd eisoes wedi cael datblygiadau tebyg ac a fyddai'n cael effaith weledol debyg, a oedd wedi cael caniatâd cynllunio. Amlinellodd y siaradwr gefnogaeth a gwrthwynebiadau'r cymdogion i'r cynnig, gyda'r gwrthwynebiadau wedi'u codi yn ymwneud â throsedrych. Hysbyswyd y pwyllgor o'r mesurau a gymerwyd gan yr ymgeiswyr i ddiwygio'r cynigion i liniaru pryderon o ran trosedrych.

Trafodaeth gyffredinol -

Siaradodd y Cynghorydd Tina Jones ar ran Julian Thompson-Hill (Aelod lleol) nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd fod y Cynghorydd Thompson-Hill o'r farn bod elfen o drosedrych yn gyffredin oherwydd topograffeg Prestatyn. Fodd bynnag, byddai'r datblygiad yn cynyddu'r posibilrwydd o'r eiddo'r trosedrych ar eiddo is-law Talton Court, a byddai'n effeithio ar amwynderau gweledol y trigolion hynny. Dywedodd y Cynghorydd Jones pe bai'r Cynghorydd Thompson-Hill yn bresennol y byddai'n debygol o fod wedi cynnig gwrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Penlington ei fod yn adnabod yr ardal yn dda a'i fod yn deall bod yr adeilad ar fynydd ac yn edrych dros eiddo eraill. Fodd bynnag, deallodd mai'r unig wrthwynebiadau oedd o eiddo 50 metr i ffwrdd.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Paul Penlington, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Evans, y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

Pleidlais:
O blaid – 16
Ymatal – 0
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

**9 CAIS RHIF. 45/2020/0897 - TIR YNG NGHEFN, 2 ELM GROVE, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i godi un annedd, garej ar wahân, mynedfeydd a gwaith cysylltiedig ar dir y tu ôl i 2 Elm Grove, Y Rhyl LL18 3PE.

Siaradwyr Cyhoeddus -

Gordon Milton (**Yn erbyn**) –

Hysbysodd y siaradwr cyhoeddus yn erbyn y cais yr aelodau o gysylltiad ei deulu â'r ardal a'u hangen a brofwyd yn feddygol i osgoi tarfu a phryder yr oeddent yn rhagweld y byddai'n anochel pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu. Yn wir, dywedodd y siaradwr fod y posibilrwydd o'r datblygiad ei hun wedi achosi problemau sylweddol i'r teulu.

Hysbysodd y siaradwr yr aelodau hefyd o'r problemau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r cais a oedd yn cynnwys effeithiau negyddol ar lifogydd a charthffosydd, preifatrwydd, defnyddio'r ardd deuluol a cholli golau.

Jared Hughes (**O blaid**) –

Dywedodd y siaradwr cyhoeddus o blaid y cais fod yr ymgeiswyr wedi gweithio gyda'r swyddog cynllunio i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan y gwrthwynebwyr, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Yn benodol, roedd y cais wedi'i gynllunio i fodloni gofynion yr awdurdod lleol o ran bywyd gwyllt a bioamrywiaeth; pellteroedd rhesymol rhwng eiddo ac atal colli preifatrwydd drwy ddyluniad y ffenestri.

Dywedodd y siaradwr wrth yr aelodau fod caniatâd amlinellol wedi'i roi ar y safle a bod hynny'n sail i'r cais hwn. Os caiff ei ganiatáu, cartref y teulu fyddai'r datblygiad.

Trafodaeth gyffredinol -

Dywedodd y Cynghorydd Tony Thomas (aelod lleol) roedd y cynnig ar gyfer codi annedd ar safle gyda chaniatâd cynllunio sy’n bodoli eisoes. Dywedodd nad oedd unrhyw wrthwynebiadau gan swyddogion priffyrdd a bod digon o bellter o'r adeiladau presennol. Dywedodd y Cynghorydd Thomas hefyd fod y datblygiad arfaethedig yn unol â nod y cynllun corfforaethol o ddarparu cartrefi i deuluoedd ifanc.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Christine Marston, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Scott, y dylid cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

Pleidlais:
O blaid – 15
Ymatal – 1
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO’R** cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a’r papurau ategol.*

## 10 CAIS RHIF. 03/2020/0472 - PENGWERN HALL PENGWERN LLANGOLLEN

Cyflwynwyd cais ar gyfer adeiladu lagŵn slyri a gwaith cysylltiedig ym Mhlas Pengwern, Llangollen.

Trafodaeth gyffredinol -

Dywedodd y Cynghorydd Melvyn Mile (aelod lleol) fod cyngor y dref eisiau codi ymwybyddiaeth o ba mor agos oedd y datblygiad i ddwy ysgol ac i eiddo preswyl. Dywedodd na fu unrhyw wrthwynebiadau gan unrhyw gyrff allanol a byddai'n cefnogi'r cais cyn belled bod amodau priodol mewn grym.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Melvyn Mile, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Alan James, y dylid cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

Pleidlais:
O blaid – 15
Ymatal – 1
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO’R** cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a’r papurau ategol.*

## 11 CAIS RHIF. 10/2020/0642- TIR YN BROOKLYN, BRYNEGLWYS, CORWEN

Cyflwynwyd cais am amrywio amodau 2 a 3 o ganiatâd cynllunio amlinellol 10/2017/0330 i ganiatáu ymestyn amser ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl a dyddiad cychwyn y datblygiad yn Brooklyn, Bryneglwys, Corwen.

O ystyried y sylwadau hwyr oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru, gofynnodd swyddogion i'r cais gael ei ohirio er mwyn caniatáu i'r ymgeiswyr fynd i'r afael â'r mater o effaith y datblygiad ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy.

Cynigiodd y Cynghorydd Brian Jones ohirio'r cais o ystyried y sylwadau hwyr gan Adnoddau Naturiol Cymru ac i'r ymgeisydd fynd i'r afael â mater effaith mewn perthynas ag ACA, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Bob Murray.

Pleidlais:
O blaid – 16
Ymatal – 0
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid gohirio'r cais ar Dir yn Brooklyn, Bryneglwys, Corwen tan gyfarfod yn y dyfodol.*

## 12 CAIS RHIF. 42/2020/0903 - TIR GER CARTREFLE, FFORDD FFYNNON, DYSERTH, Y RHYL

Cyflwynwyd cais i ddatblygu 0.12 hectar o dir drwy godi 2 annedd ar wahân (cais amlinellol - pob mater wedi'i gadw'n ôl) ar dir gerllaw Cartrefle, Ffordd Ffynnon, Dyserth, Y Rhyl.

Trafodaeth Gyffredinol –

Dywedodd y cadeirydd wrth y pwyllgor na allai'r aelod lleol y Cynghorydd David Williams ddod i'r cyfarfod. Fodd bynnag, roedd wedi anfon datganiad yn amlinellu ei fod wedi asesu'r gwrthwynebiadau a godwyd i'r cais a'i fod yn fodlon i'r pwyllgor benderfynu ar y cais gyda'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Pe bai wedi mynychu, byddai'r Cynghorydd Williams wedi datgan cysylltiad personol gan fod ganddo eiddo yng nghyffiniau safle'r cais.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Bob Murray y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

Pleidlais:
O blaid – 16
Ymatal – 0
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.*

## 13 CAIS RHIF. 47/2020/0271 - TIR YN (RHAN O ARDD) GLANRAFON RHUALLT LLANELWY

Cyflwynwyd cais i godi un annedd, ffurfio mynedfa newydd i gerbydau, gosod tanc septig a gwaith cysylltiedig ar dir yn (rhan o ardd) Glanrafon, Rhuallt, Llanelwy.

Trafodaeth gyffredinol -

Dywedodd y Cynghorydd Christine Marston (aelod lleol) wrth y pwyllgor fod Glanrafon yn adeilad rhestredig gradd 2 tri llawr, a bod y cais ar gyfer datblygiad yn yr ardd. Roedd y cais yn cael ei drafod oherwydd pryderon a godwyd gan Gynghorau Cymuned Tremeirchion, Cwm a'r Waen ar yr effaith y byddai'n ei chael ar Glanrafon a diogelwch priffyrdd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y cynigiwyd ceisiadau am ddwy annedd fforddiadwy ar y safle ym mis Mai 2013. Tynnwyd y rheiny'n ôl oherwydd sawl amheuaeth a godwyd gan y swyddog cadwraeth tra bod gan swyddogion priffyrdd bryderon hefyd am yr effaith ar y priffyrdd a'r gwelededd. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith gormesol ar Glanrafon oherwydd er mai dau lawr yn unig oedd gan y datblygiad arfaethedig, byddai uchder y crib yn uwch na Glanarfon.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Christine Marston, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Scott, y dylid gwrthod y cais yn groes i argymhellion swyddogion yn unol â Nodiadau Cyngor Technegol 14 a 18 ac o ystyried pryderon am yr effaith ar ddiogelwch rhestredig a diogelwch priffyrdd.

Teimlai'r Cynghorydd Ann Davies yn gryf y dylid diogelu adeiladau rhestredig, a gofynnodd a oedd CADW wedi gwneud unrhyw sylwadau ar y cais. Dywedodd swyddogion na fyddai CADW fel arfer yn gwneud sylwadau ar gais cynllunio ar y cam hwn ond bod swyddog Cadwraeth y Cyngor wedi teimlo bod y datblygiad yn dderbyniol.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Paul Penlington, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Alan James, y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

Ochr yn ochr â'r cynnig awgrymwyd y gallai cysoni lefelau'r llawr rhwng yr adeilad rhestredig a'r datblygiad newydd fod yn fuddiol.

Pleidlais:
O blaid – 4
Ymatal – 0
Yn erbyn – 12

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***GWRTHOD*** *y cais yn groes i argymhellion y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad.*

**14 CAIS RHIF. 47/2020/0272 - TIR YN (RHAN O ARDD) GLANRAFON RHUALLT LLANELWY**

Cyflwynwyd cais i symud rhan o wal i ffurfio mynediad (Cais Adeilad Rhestredig) ar dir a oedd yn rhan o ardd Glanrafon, Rhuallt, Llanelwy

**Cynnig** - Cynigiodd y Cynghorydd Christine Marston y dylid gwrthod y cais gan ei fod yn effeithio ar amwynderau gweledol yr adeilad rhestredig, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Scott.

Pleidlais:
O blaid – 4
Ymatal – 0
Yn erbyn – 10

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***GWRTHOD*** *y cais yn groes i argymhellion y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad.*